



CYNLLUN DARLLEN 

Adfent Nadolig 2019

Dros y blynyddoedd mae'r adfent wedi bod yn gyfnod i Gristnogion feddwl ac ystyried pam fod Iesu wedi dod i'r byd fel baban mewn preseb ym Methlehem. Beth wyt ti am ei wneud gyda dy adfent di? Beth am dreulio peth o'r amser yn meddwl a rhyfeddu ar y ffaith fod Iesu wedi dod yn ddyn?

Mae pobl yn paratoi ar gyfer y Nadolig mewn amrywiol ffyrdd. Mae rhai'n agor drysau bach eu calendrau adfent i fwyta'r siocled blasus. Mae eraill yn dechrau gwrandao ar gerddoriaeth Nadoligaidd *Wham!* a Mariah Carey ar *Spotify*. Mae eraill eto yn dathlu trwy godi eu coed Nadolig lliwgar yn eu parlwr a gosod addurniadau o amgylch y tŷ. Ydy, mae'r Adfent yn gyfnod cyffrous iawn o'r flwyddyn wrth i ni edrych ymlaen yn eiddgar ar gyfer y Nadolig. Sut wyt ti yn paratoi am y Nadolig?

Yng nghanol yr holl fwrlwm mae'n hawdd colli golwg ar wir ystyr y Nadolig – fod Mab Duw, Iesu Grist, wedi dod yn ddyn o gig a gwaed. Wyt ti erioed wedi meddwl beth yw ystyr y gair 'adfent'? Daw'r gair o'r hen air Lladin *adventus* sy'n golygu 'dyfodiad'. Dros y blynyddoedd mae'r adfent wedi bod yn gyfnod i Gristnogion feddwl ac ystyried pam fod Iesu wedi dod i'r byd fel baban mewn preseb ym Methlehem. Beth wyt ti am ei wneud gyda dy adfent di? Beth am dreulio peth o'r amser yn meddwl a rhyfeddu ar y ffaith fod Iesu wedi dod yn ddyn?

Bwriad y cynllun darllen hwn yw dy helpu i wneud hynny. Bydd y cynllun hwn yn edrych ar beth mae'r Beibl yn ei ddweud am Iesu Grist – y Duw ddaeth yn ddyn. Bob dydd, bydd darn cryno o'r Beibl i'w ddarllen ynghyd ag ychydig o gwestiynau i dy helpu i ddeall y testun. Byddwn yn cychwyn drwy edrych ar sut mae'r Hen Destament yn edrych ymlaen at eni Iesu cyn edrych ar hanes y geni yn y Testament Newydd. Byddwn yn gorffen trwy edrych ar yr hyn mae'r Beibl yn ei ddweud ynglŷn â pham wnaeth Duw anfon Iesu Grist i'r byd. Fy ngobaith ydy bydd y cynllun darllen hwn yn dy gynorthwyo dros y Nadolig i weld mae Iesu yw'r anrheg Nadolig gorau erioed. Nadolig llawen i ti!

RHAGFYR 1: Mae Duw wedi addo o'r cychwyn!

Mae'n bwysig cofio mai cynllun Duw o'r cychwyn oedd anfon Iesu Grist i'r byd. Mae'r Hen Destament cyfan yn pwyntio at enedigaeth Iesu. Yn ein darlleniad ni heddiw, mae Eiseia – oedd

yn ddyn oedd yn byw 800 mlynedd cyn i Iesu gael ei eni – yn dweud y byddai Duw, rhyw ddydd, yn anfon Brenin arbennig iawn i'r byd.

Darllen: Eseia 7:14 a 9:1-7

- ⇒ Ystyr 'Immanuel' yw 'Duw gyda ni'. Sut mae'r adnod (Eseia 7:14) yn dod yn wir pan fo Iesu yn cael ei eni?
- ⇒ Mae'r geiriau hyn yn disgrifio Iesu mor berffaith – sut mae Eseia'n disgrifio'r 'bachgen' sy'n mynd i gael ei eni yn y dyfodol?
- ⇒ Pam fod y 'bachgen' hwn yn mynd i ddod i'r byd? Sut mae'n mynd i fendithio pobl Dduw?
- ⇒ Ydi'r adnodau hyn yn dy helpu i ryfeddu ar Iesu Grist heddiw?

Diolch, Arglwydd, dy fod wedi addo anfon Iesu i'r byd o'r cychwyn! Diolch fod y Beibl cyfan yn pwyntio at ei ddyfodiad. Diolch mai Iesu yw'r 'bachgen' yn Eseia sy'n mynd i ddod â 'goleuni' i'r byd!

RHAGFYR 2: Mae am DDOD o Jesse!

Jesse oedd tad y Brenin Dafydd. Mae'r Hen Destament yn dweud fod y Meseia yn mynd i gael ei eni i deulu Dafydd. Roedd Joseff, tad bydol Iesu, yn aelod o deulu Dafydd ac felly mae genedigaeth Iesu'n cyflawni'r addewid yma! Iesu yw'r Meseia o linach Dafydd.

Darllen: Eseia 11:1-16

- ⇒ Sut berson fyddai'r Meseia yn ôl yr adnodau hyn? (11:1-5).
- ⇒ Beth fyddai'r Meseia yn llwyddo i'w gyflawni yn ystod ei fywyd? (11:6-9)
- ⇒ Pa fath o bobl fydd yn credu yn y Meseia? Ym mha ffordd mae hyn wedi ei gyflawni gan Iesu? (11:10-16)

Diolch, Dad, mai Iesu yw'r Meseia yr wyt ti wedi ei addo yn yr Hen Destament! Diolch mai ef yw 'cangen Jesse'. Diolch fod yr Ysbryd Glân yn gorffwyso arno Ef! Plis helpa ni i ganolbwyntio ar Iesu yn ystod y Nadolig hwn.

RHAGFYR 3: ADDO LLYWODRAETHWR O FETHLEHEM

Mae Micha, sef proffwyd arall oedd yn byw yn bell cyn Iesu, yn dweud y bydd Iesu'n cael ei eni ym Methlehem. Mae'n esbonio y bydd Iesu yn 'lywodraethwr yn Israel'. Pan gafodd Iesu ei eni, cyflawnwyd proffwydoliaeth Micha.

Darllen: Micha 5:2-5

- ⇒ Pam fod Micha yn dweud fod 'tarddiad' (cychwyn) y Meseia 'yn y gorffennol'? Beth mae hyn yn ei ddysgu inni am enedigaeth Iesu?
- ⇒ Beth mae'r Meseia wedi dod i'w wneud? Edrycha yn benodol ar adnodau 4 a 5.
- ⇒ Sut mae beth ddywedodd Micha wedi dod yn wir pan wnaeth Iesu ddod i'r byd? Sut mae hyn yn ein helpu i ryfeddu ar Iesu?

Diolch, Dad Sanctaidd, mai Iesu yw'r 'lywodraethwr' rwyd wedi ei addo trwy Micha! Diolch mai Iesu yw'r Bugail da sydd wedi cael ei anfon i 'arwain y praidd yn nerth yr Arglwydd'. Helpa ni i gofio ein bod yn gwbl ddiogel os ydym yn credu yn Iesu.

RHAGFYR 4: NEWYDDION DA!

Mae'r Eseia yn y darn yma yn proffwydo dyfodiad yr Arglwydd Iesu drwy gyfeirio at 'newyddion da' fydd yn cael ei gyhoeddi.

Darllen: Eseia 40:9-11

- ⇒ Ydy'r darn yma o'r Beibl yn dy wneud yn hapus? Pam?
- ⇒ Beth mae Eseia'n ei ddweud sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol?
- ⇒ Sut mae Iesu Grist yn cyflawni'r geiriau hyn. Darllen Ioan 10:11 i dy helpu.

Diolch, Dad, mai Iesu yw'r 'Bugail Da' sy'n cyflawni'r broffwydoliaeth hon. Diolch dy fod ti dy hun wedi dod i'r byd yn Iesu Grist. Helpa ni i ryfeddu arnat ti yn ystod y Nadolig hwn!

RHAGFYR 5: ADDO PROFFWYD

Yn Deuteronomium 18, mae Moses yn addo y bydd Duw rhyw ddydd yn anfon 'Proffwyd' arall fydd yn siarad ar ran yr Arglwydd. Iesu Grist yw'r 'Proffwyd' hwn sydd wedi ei addo.

Darllen: Deuteronomium 18:15-19

- ⇒ Beth yw gwaith y 'proffwyd' yma?
- ⇒ Sut mae'r broffwydoliaeth hon yn cael ei gyflawni gan Iesu?
- ⇒ Ym mha ffordd y gall hyn ein heffeithio ni?

Diolch, Arglwydd, mai Iesu yw'r 'Proffwyd' sy'n llefaru dy eiriau di wrthym ni! Helpa ni i wrando ar ei eiriau Ef yn ystod y Nadolig hwn.

RHAGFYR 6: ADEILADWR Y DEML NEWYDD

Mae'r Proffwyd Sechareia yn dweud y bydd y Duw yn anfon rhywun o'r enw 'Blaguryn' (gair sy'n golygu tyfiant newydd ar blanhigyn) fydd yn ail-adeiladu'r Deml (Tŷ Duw yn yr Hen Destament). Yma eto gwelwn rhywun yn siarad am Iesu Grist gannoedd o flynyddoedd cyn ei eni!

Darllen: Sechareia 6:12-13

- ⇒ Beth fydd y 'Blaguryn' hwn yn ei wneud?
- ⇒ Ym mha ffordd mae'r Arglwydd Iesu wedi cyflawni'r pethau yma? Edrych ar Ioan 2:19 i dy helpu.

Diolch, Dad Sanctaidd, mai Iesu yw'r 'Blaguryn' sy'n cael ei broffwydo gan Sechareia. Diolch fod Iesu wedi dod i ail-adeiladu'r Deml trwy atgyfodi o farw'n fyw ar y trydydd dydd. Helpa ni i gofio fod y Beibl i gyd yn pwyntio at ddyfodiad Iesu.

RHAGFYR 7: RHAGFYNEGI GENEDIGAETH IESU

Wedi edrych ar ddarnau o'r Hen Destament sy'n proffwydo fod Iesu yn mynd i ddod yn berson go iawn a byw ar y Ddaear, rhaid troi yn awr i edrych ar hanes geni Iesu. Edrychwn yn gyntaf ar hanes yr angel Gabriel yn dweud wrth Mair fod Iesu'n mynd i gael ei eni iddi.

Darllen: Luc 1:26-38

- ⇒ Sut mae Mair yn ymateb i eiriau Gabriel? Pam ei bod hi'n ymateb fel hyn? Sut mae Gabriel yn mynd ati i'w chysuro?
- ⇒ Sut mae Gabriel yn disgrifio Iesu yn 1:31-33. Ym mha ffordd mae'r disgrifiad hwn yn gysylltiedig â'r hyn oedd yr holl broffwydi yn ei ddweud am Iesu?
- ⇒ Pam, yn ôl adnod 35, fod genedigaeth Iesu Grist yn wahanol i bob genedigaeth arall?

Diolch, Dad, am anfon dy Fab i'r byd. Diolch fod Iesu wedi'i eni o'r Ysbryd Glân ac felly nid oes ôl pechod arno. Helpa ni i gofio'r Nadolig hwn fod Iesu Grist yn gwbl ddynol ac yn gwbl ddwyfol.

RHAGFYR 8: EMYN MAWL MAIR

Mae Mair yn dathlu'r newyddion mae wedi ei glywed gan Gabriel drwy ganu cân o fawl! Yn ei chân, mae Mair yn addoli Duw am iddo gadw at ei addewidion i'w bobl trwy anfon y Meseia i'r byd.

Darllen: Luc 1:46-56

- ⇒ Ym mha ffordd mae Mair yn disgrifio Duw yn yr adnodau hyn? Beth mae'n ei olygu pan mae hi'n galw Duw yn 'Waredwr'?
- ⇒ Mewn un gair, disgrifia'r gân hon. Pam dy fod yn dweud hyn?
- ⇒ Darllena 1 Samuel 2:1-10 lle mae Hanna yn rhoi cân hefyd. Rhoddodd Duw faban i Hanna wedi cyfnod hir o fethu cael plant. Beth sy'n debyg a gwahanol rhwng y ddwy gân? Pam fod Mair yn defnyddio geiriau Hanna yma?

Diolch, Arglwydd, dy fod wedi cadw dy addewidion trwy anfon Iesu i'r byd. Helpa ni i gael yr un llawenydd ag oedd gan Mair wrth feddwl am enedigaeth Iesu Grist.

RHAGFYR 9: IOAN FEDYDDIWR – PWYNTIO AT IESU GRIST!

Mae Ioan Fedyddiwr yn cael ei eni cyn Iesu er mwyn pwyntio pobl ato Ef ac annog pobl i gredu ynddo. Yn y gân hon, mae Sachareias, tad Ioan, yn addoli Duw am anfon Ioan i baratoi'r ffordd ar gyfer Iesu.

Darllen: Luc 1:67-79

- ⇒ Yn ôl yr adnodau hyn, beth fydd gwaith Ioan? Edrycha'n benodol ar adnod 76.
- ⇒ Mae Sachareias yn disgrifio Iesu fel 'yr Arglwydd'. Beth mae hyn yn ei ddweud am Iesu?
- ⇒ Beth yw'r neges mae Ioan Fedyddiwr wedi dod i'w chyhoeddi? Sut mae Iesu'n sicrhau 'maddeuant pechodau' i'w bobl? Edrycha'n benodol ar adnod 77.

Diolch, Arglwydd, am anfon Ioan Fedyddiwr i baratoi'r ffordd ar gyfer Iesu. Diolch mai Iesu yw'r 'Arglwydd'—Duw ei hun wedi dod yn ddyn! Diolch fod maddeuant pechodau ar gael i bwy bynnag sy'n credu yn Iesu. Helpa ni i ymddiried a chredu yn Iesu heddiw!

RHAGFYR 10: LLINACH IESU GRIST

Mae Mathew yn cychwyn ei Efengyl trwy adrodd llinach (Taid, Hen daid ayyb) Iesu Grist i ni. Mae'r llinach yn dangos mai dyn go iawn oedd Iesu ac fod holl addewidion yr Hen Destament yn cael ei cyflawni ynddo.

Darllen: Mathew 1:1-17

- ⇒ Pa enwau wyt ti'n gyfarwydd â nhw yn llinach Iesu Grist?
- ⇒ Darllena Genesis 12:2 a 2 Samuel 7:12. Sut mae genedigaeth Iesu'n cyflawni'r addewid a wnaeth Duw gydag Abraham a Dafydd?

Diolch, Dad Sanctaidd, am gadw dy addewid i Abraham a Dafydd drwy anfon Iesu i'r byd!

RHAGFYR 11: Geni Iesu (1)

Mae Luc yn adrodd hanes genedigaeth Iesu. Mae Duw yn gwneud yn siŵr fod Iesu'n cael ei eni ym Methlehem er mwyn cyflawni proffwydoliaeth yr Hen Destament.

Darllen: Luc 2:1-7

- ⇒ Sut mae'r hanes yma'n dangos fod Duw yn rheoli popeth?
- ⇒ Pa wybodaeth mae Luc yn ei roi yma i ddangos i ni mai digwyddiad hanesyddol a ffeithiol oedd genedigaeth Iesu Grist? Edrychwch yn benodol ar yr enwau mae Luc yn eu rhestru.

Diolch, Dad Sanctaidd, mai ti yw'r un sy'n llywodraethu dros bopeth! Diolch am gynllunio i Awgustws Cesar drefnu adolygiad er mwyn symud Iesu i Fethlehem. Diolch fod genedigaeth Iesu yn ddigwyddiad hanesyddol, go iawn. Rwy'ti wirioneddol wedi anfon dy Fab i'r byd!

RHAGFYR 12: Geni Iesu (2)

Mae Mathew hefyd yn adrodd hanes geni Iesu. Mae Mathew yn canolbwyntio ar hanes yr angel yn ymddangos i Joseff cyn genedigaeth Iesu. Mae'r angel yn egluro mai Iesu yw'r un sydd wedi dod i 'waredu' (achub) pobl o'u pechodau!

Darllen: Mathew 1:18-25

- ⇒ Ystyr yr enw Hebraeg 'Iesu' (Yeshua) yw 'i achub' neu 'i waredu'. Sut mae Iesu'n mynd i 'waredu' ei bobl o'u pechodau? Pam ein bod ni angen cael ein hachub o'n pechodau?
- ⇒ Pam fod Mathew yn dyfynnu Eiseia 7:14 (darlleniad Rhagfyr 1af) yn adnod 23? Beth mae hyn yn ei ddweud am enedigaeth Iesu?

Diolch, Arglwydd, am anfon Iesu i'r byd i'n gwaredu o'n pechod trwy farw ar y groes yn ein lle. Diolch fod maddeuant pechodau ar gael i bawb sy'n credu yn Iesu! Helpa ni i gredu mai Iesu yw'r Gwaredwr heddiw.

RHAGFYR 13: Daeth y Gair yn Gnawd

Mae Ioan yn cychwyn ei Efengyl trwy bwysleisio nad genedigaeth Iesu oedd cychwyn ei fodolaeth! Mae Iesu yn Dduw ac felly wedi byw mewn perthynas berffaith gyda Duw'r Tad erioed. Fe yw'r 'Gair' sydd wedi dod yn 'gnawd'.

Darllen: Ioan 1:1-18

- ⇒ Sut mae Ioan yn disgrifio'r 'Gair' yn adnodau 1-5? Sut mae'r adnodau hyn yn ein helpu i ryfeddu ar Iesu heddiw?
- ⇒ Sut mae pobl ar y cyfan yn mynd i ymateb i Iesu? Edrycha'n benodol ar adnodau 6 i 11.
- ⇒ Beth yw'r hyn mae Iesu yn ei roi i'r bobl sydd yn ei dderbyn? Pam fod hyn mor rhyfeddol?

⇒ Sut mae adnod 14 yn mynd ati i esbonio geni Iesu? Beth mae'n ei olygu pan mae Ioan yn dweud fod y 'Gair' wedi dod yn 'gnawd'?

Diolch, Dad Sanctaidd, fod y Gair wedi dod yn gnawd. Diolch fod Iesu'n cynnig mabwysiadu unrhyw un sydd yn ei dderbyn Ef! Plis helpa ni i dderbyn a chredu yn Iesu heddiw.

RHAGFYR 14: Y BUGEILIAID A'R ANGYLION

Y rhai cyntaf i ymweld â'r Arglwydd Iesu wedi iddo gael ei eni oedd criw o fugeiliaid. Mae angylion yn ymddangos iddynt gan rannu'r newyddion fod y Meseia wedi cael ei eni.

Darllen: Luc 2:8-21

- ⇒ Pam fod y newyddion mae'r angel yn ei gyhoeddi yn 'newydd da am lawenydd mawr'?
- ⇒ Pa dri theitl mae'r angel yn eu rhoi i Iesu? Beth yw ystyr pob un o'r teitlau hyn.
- ⇒ Beth yw ymateb y bugeiliaid ar ôl iddynt weld Iesu? Pam y dylwn ni ymateb yn yr un ffordd heddiw?

Diolch, Dad, mai Iesu yw'r Gwarddwr, y Meseia a'r Arglwydd! Diolch fod ei enedigaeth yn newyddion da i ni. Helpa ni i ymateb fel y bugeiliaid drwy rannu am Iesu gyda'r rhai sydd o'n cwmpas! Helpa ni i dy 'ogoneddu' a dy 'foli' fel y mae'r bugeiliaid yn wneud.

Rhagfyr 15: Ymweliad y Seryddion

Mae Mathew yn adrodd yr hanes am y seryddion sy'n ymweld ag Iesu wedi iddo gael ei eni. Roedd pobl o bob math o gefndiroedd yn dod i addoli'r Brenin Iesu—o'r bugeiliaid tlawd i'r seryddion cyfoethog o'r dwyrain!

Darllen: Mathew 2:1-12

- ⇒ Beth mae'r seryddion yn galw Iesu yn adnod 2? Pwy oedd 'Brenin yr Iddewon' go iawn—Iesu neu Herod?
- ⇒ Beth yw ymateb y seryddion pan maent yn gweld Iesu? Pam y dylwn ninnau ymateb yn yr un ffordd?

Diolch, Arglwydd, am esiampl y seryddion. Diolch eu bod yn addoli Iesu fel eu Brenin. Helpa ni heddiw i addoli'r Arglwydd Iesu fel ein Brenin ni.

RHAGFYR 16: FFOI I'R AIFFT

Mae Herod yn lladd pob bachgen yn ardal Bethlehem er mwyn ceisio lladd Iesu. Mae ef yn gweld Iesu fel her i'w safle fel 'Brenin yr Iddewon'. Y gwirionedd amdani, er hynny, yw mai Iesu yw 'Brenin yr Iddewon' go iawn!

Darllen: Mathew 2:13-23

- ⇒ Sut mae Duw yn arwain Joseff?
- ⇒ Pam fod Herod mor flin?
- ⇒ Pa broffwydoliaethau o'r Hen Destament sy'n dod yn wir yn adnodau 15 ac 18? Edrycha ar Hosea 11:1 a Jeremeia 31:15.

Diolch, Dad, am warchod yr Arglwydd Iesu pan oedd Herod yn ceisio ei ladd! Diolch fod genedigaeth Iesu yn cyflawni pob math o broffwydoliaethau. Helpa ni i ymddiried yno ti fel y gwnaeth Joseff.

RHAGFYR 17: Pam DDAETH IESU I'R BYD?

Mae gweddill y darlenniadau yn mynd i ystyried pam y daeth Iesu i'r byd. Mae'r darlenniad yma o lythyr a gafodd ei ysgrifennu i'r Hebreaid yn dangos fod Iesu wedi dod i'r byd i farw er mwyn dinistrio pŵer Satan.

Darllen: Hebreaid 2:14-15

- ⇒ Pam fod yn rhaid i Iesu ddod yn ddyn o 'gig a gwaed'?
- ⇒ Beth mae marwolaeth Iesu wedi llwyddo i'w gyflawni? Gwnewch restr o'r holl bethau mae'r darlenniad yn sôn amdanynt.
- ⇒ Sut mae'r darlenniad yma yn dy wneud di'n ddiolchgar fod Duw wedi anfon Iesu i'r byd?

Diolch, Dad Sanctaidd, am anfon Iesu i'r byd. Diolch ei fod wedi dod yn ddyn o gig a gwaed er mwyn gallu marw yn ein lle. Diolch fod ei farwolaeth yn ein rhyddhau ni o rym marwolaeth! Helpa ni yn ystod y Nadolig hwn i gofio fod Iesu wedi dod i'r byd i farw ar y groes.

RHAGFYR 18: RHOI SYLWEDD I'R CYSGODION

Mi fedrwn ni weld cysgod, ond does dim sylwedd iddyn nhw – mae'n nhw'n digwydd o ganlyniad i rhywbeth arall. Yn yr Hen destament roedd Duw wedi rhoi nifer o bethau i'w bobl – offeiriaid, teml ac aberthau. Ond dim ond cysgodion oedd y pethau hyn, mae Iesu Grist wedi dod i'r byd i roi sylwedd iddynt.

Darllen: Hebreaid 8:1-2

- ⇒ Beth yw gwaith archoffeiriad yn ôl y darlenniad hwn?
- ⇒ Ym mha ffordd y mae Iesu Grist yn archoffeiriad gwell nag offeiriaid yr Hen Destament? Darllena weddill y bennod i dy helpu ac edrycha ar Hebreaid 4:14-16 hefyd.

Diolch fod Iesu yn gwireddu holl gysgodion yr Hen Destament. Diolch fod yr offeiriaid a theml yr Hen Destament yn pwyntio ato Ef. Diolch fod Iesu yn offeiriad mawr sy'n gallu cydymdeimlo hefo ni. Helpa ni i ymddiried yn Iesu yn ystod y Nadolig hwn!

RHAGFYR 19: DAETH IESU I ROI BYWYD!

Mae Iolan yn esbonio fod Iesu Grist wedi dod i roi bywyd i ni. Daeth Iesu i'r byd i farw yn ein lle er mwyn i ni gael bywyd.

Darllen: Iolan 10:10

- ⇒ Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr hyn mae Iesu yn ei gynnig a'r hyn mae'r lleidr yn ei gynnig?
- ⇒ Ym mha ffordd yr ydym angen 'bywyd'?
- ⇒ Darllena bennod 10 i gyd. Sut mae Iesu yn disgrifio ei hun? Sut mae'r disgrifiad hwn yn rhoi cysur i ti heddiw?

Diolch, Arglwydd, fod Iesu wedi dod i roi bywyd i bobl—a bywyd yn ei holl gyflawnder! Diolch mai Iesu yw'r Bugail Da sydd wedi dod i aberthu ei fywyd dros ei ddefaid. Helpa ni i gredu yn Iesu heddiw.

RHAGFYR 20: GOSTYNGEIDDRWYDD CRIST

Yn ei lythyr at y Philipiaid, mae'r Apostol Paul yn disgrifio holl fywyd Iesu mewn ffordd arbennig. Mae'n gweld fod Iesu wedi dod yn isel (gostwng ei hun) er ein mwyn ni.

Darllen: Philipiaid 2:6-11

- ⇒ Sut mae Paul yn mynd ati i ddisgrifio genedigaeth Iesu yn yr adnodau hyn?
- ⇒ Ym mha ffordd mae'r adnodau hyn yn dangos fod Iesu yn 'ostyngedig'?
- ⇒ Sut mae gostyngeddrwydd Iesu yn esiampl i ti heddiw?

Diolch, Dad, fod Iesu wedi dangos ei ostyngeddrwydd trwy ddod yn ddyn o gig a gwaed a thrwy farw ar y groes! Helpa fi i ddilyn esiampl Iesu trwy fod yn ostyngedig.

RHAGFYR 21: CYFAMOD NEWYDD

Mae'r Proffwyd Jeremeia yn dweud y bydd dydd yn dod yn y dyfodol pan fydd Duw yn gwneud cyfamod newydd â'i bobl. Bob Nadolig, rydym yn cofio fod hyn wedi ei wireddu pan ddaeth Iesu i'r byd.

Darllen: Jeremeia 31:31-24

- ⇒ Beth yw ystyr 'cyfamod'? Edrycha ar Genesis 15 os wyt angen help (cliw - mae'n debyg i contract).
- ⇒ Ym mha ffordd mae'r cyfamod newydd yn mynd i fod yn wahanol i'r hen gyfamod?
- ⇒ Mae'r Arglwydd yn dweud yn adnod 34 y bydd yn maddau 'drygioni' ac yn anghofio 'pechodau' yn y cyfamod newydd. Sut mae Iesu wedi gwneud hyn?

Diolch, Dad, fod proffwydoliaeth Jeremeia am gyfamod newydd yn dod yn wir drwy fywyd Iesu. Diolch fod Iesu wedi marw ar y groes er mwyn talu'r pris yr ydym yn ei haeddu am ein drygioni a'n pechod.

RHAGFYR 22: RHANNU'R NEWYDDION DA!

Yn yr adnod yma yn Efengyl Ioan, mae Iesu'n sôn ein bod ni'n cael ein hanfon ganddo i rannu'r newyddion da am ei ddyfodiad. Mae mor bwysig ein bod ni'n rhannu'r newyddion da am Iesu gyda'n ffrindiau a'n teulu dros y Nadolig.

Darllen: Ioan 17:18

- ⇒ Beth mae Iesu'n ei olygu pan mae'n dweud ei fod yn ein 'hanfon' ni i'r byd?
- ⇒ Pam mae mor bwysig rannu'r newyddion da am Iesu gyda'n ffrindiau a'n teuluoedd? Pam mae'n gallu bod anodd gwneud hynny?

Diolch, Dad Sanctaidd, am anfon Iesu Grist i'r byd! Diolch fod Iesu nawr yn ein hanfon ni i rannu'r newyddion da amdano! Helpa ni i siarad gyda'n ffrindiau a'n teulu am Iesu yn ystod y Nadolig.

RHAGFYR 23: Pam gafodd Iesu ei eni?

Cyn iddo gael ei ladd, mae Iesu yn ateb cwestiynau Pilat. Wrth ateb ei gwestiynau, mae'n esbonio pam ei fod wedi dod i'r byd. Yn ei ateb, mae'n datgelu ei fod wedi bodoli ers erioed!

Darllen: Ioan 18:37-38

- ⇒ Beth yw ateb Iesu i gwestiwn Pilat?
- ⇒ Beth mae'r adnodau hyn yn eu dangos i ni am Iesu?
- ⇒ Pam ei bod hi mor bwysig cofio fod Iesu wedi bodoli ers cychwyn amser?

Diolch, Arglwydd, fod Iesu wedi dod i'r byd i dystiolaethu am y gwirionedd. Fe yw'r Brenin go iawn! Helpa ni i gofio fod Iesu wedi bodoli hefo'r Tad a'r Ysbryd Glân ers erioed a'i fod yn Dduw.

RHAGFYR 24

Mae Ioan yn rhoi rheswm arall pan wnaeth Iesu Grist ddod yn ddyn o gig a gwaed: er mwyn dinistrio gwaith Satan!

Darllen: 1 Ioan 3:7-8

- ⇒ Pwy yw'r diafol? (Darllen Genesis 3 os am gymorth)
- ⇒ Sut mae Iesu wedi mynd ati i ddinistrio gwaith y diafol?
- ⇒ Pam fod hyn yn newyddion mor dda i ni heddiw sy'n credu yn Iesu Grist? Darllena Rhufeiniaid 16:20 a Hebraeid 2:14 i dy helpu.

Diolch, Dad, fod Iesu wedi dod i goncro Satan a phechod ar y groes! Diolch ein bod ni yn awr yn rhydd i dy wasanaethu di. Helpa ni i gofio am fuddugoliaeth Iesu yn ystod y Nadolig.

RHAGFYR 25

Nadolig llawen! Yn ei lythyr at y bobl oedd yn byw yn Galatia, mae Paul yn esbonio'n glir pam fod Iesu Grist wedi dod i'r byd. Cafodd Iesu ei eni er mwyn i ni gael ein mabwysiadu yn blant iddo Ef! Pan fod person yn cael eu mabwysiadu maent yn cael dod yn rhan o deulu arall. Mae pob Cristion wedi dod yn rhan o deulu Duw drwy i Iesu ddod i'r byd a marw trosom – dyna'r anrheg Nadolig mwyaf rhyfeddol.

Darllen: Galatiaid 4:4-7

- ⇒ Pam fod Iesu wedi dod i'r byd?
- ⇒ Beth yw'r bendithion mae Iesu wedi ei sicrhau i ni?
- ⇒ Pam mae mor rhyfeddol ein bod yn gallu galw Duw yn 'Dad' heddiw?

Diolch, Arglwydd, am anfon Iesu i'r byd. Diolch fod Iesu wedi dod i'r byd er mwyn i ni gael rhyddid. Diolch ei fod wedi dod er mwyn i ni gael ein mabwysiadu yn blant i ti! Ar ddydd Nadolig, helpa ni i addoli'r Arglwydd Iesu Grist. Pan mae pethau eraill yn ceisio hawlio sylw, helpa ni i gofio mai Iesu yw canolbwynt yr holl ddathlu.

Os oes gen ti gwestiynau neu os wyt ti eisiau trafod mwy am yr hyn rwyd wedi'i ddarllen, beth am ofyn i dy rieni neu siarad gyda rhywun yn dy eglwys? Mae hefyd modd danfon cwestiynau i Llwybrau trwy'r ddolen ar dop ein gwefan, neu dros [Facebook](#), [Twitter](#) ac [Instagram](#) – @Llwybrau.

